



Huw Irranca-Davies AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd  
Senedd Cymru  
Caerdydd  
CF99 1SN

[SeneddDiwygio@senedd.cymru](mailto:SeneddDiwygio@senedd.cymru)

25 Mawrth 2022

Annwyl Huw,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 21 Mawrth 2022 ynghylch yr amserlenni posibl ar gyfer sefydlu comisiwn sy'n gyfrifol am adolygu ffiniau etholaethau'r Senedd yn rheolaidd. Rwy'n cytuno y byddai gwneud hynny yn golygu naill ai sefydlu comisiwn ffiniau newydd, neu roi'r pwerau i adolygu ffiniau etholaethau'r Senedd i gomisiwn sy'n bodoli eisoes.

Yn gyntaf, mae'n bwysig nodi na allai unrhyw waith sylweddol sy'n ymwneud ag adolygiad o etholaethau'r Senedd ddechrau hyd nes bod corff newydd neu gorff sy'n bodoli eisoes yn cael y swyddogaethau hyn. Y rheswm am hyn yw nad oes gan unrhyw gorff ar hyn o bryd y swyddogaethau deddfwriaethol i gyflawni'r gwaith hwn. Mae rhoi'r swyddogaethau ar gorff yn debygol o fod yn rhan allweddol o Fil Diwygio'r Senedd. Y man cychwyn ar gyfer y naill opsiwn neu'r llall felly yw'r adeg pan mae'r Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol.

### Sefydlu comisiwn newydd

Os sefydlir comisiwn newydd, byddai angen i'r ddeddfwriaeth a'r dogfennau cysylltiedig ymdrin â materion megis enw a statws y corff, y broses benodi, taliadau i aelodau, telerau ac amodau eraill, cyllidebau, prosesau llywodraethu ac archwilio. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r ystod o faterion sy'n berthnasol o ran sefydlu cyrff cyhoeddus newydd.

Er y gellid paratoi rhai o'r dogfennau, y polisïau a'r prosesau hyn ochr yn ochr â'r broses o lunio Bil Diwygio'r Senedd, ni ellid dechrau na chadarnhau rhai elfennau tan ar ôl i'r Bil gael

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru)  
[Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales](mailto:Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cydsyniad Brenhinol. Yn benodol, ni allai proses benodi ar gyfer Comisiynwyr corff newydd ddechrau cyn y cam hwn.

Mae'r amseru o ran proses benodi yn amrywio, yn seiliedig ar amgylchiadau penodol yr achos, gan gynnwys lefel y diddordeb a fynegwyd yn y rôl yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, er mwyn rhoi syniad o ran graddfa, mae penodiadau cyhoeddus blaenorol wedi cymryd rhwng chwech ac wyth mis yn gyffredinol i'w cwblhau wrth ddefnyddio cystadleuaeth agored a phrotocolau sydd wedi'u sefydlu i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (LDBCW).

O ran cefnogi Comisiynwyr sydd wedi'u penodi, gallai fod opsiwn mewn egwyddor i rannu'r Ysgrifenyddiaeth bresennol sy'n cefnogi'r Comisiwn Ffiniau i Gymru (BCW) a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar hyn o bryd (a'i hehangu yn ôl yr angen). Mae'n debygol y byddai manteision effeithlonrwydd a rhesymoli yn deillio o wneud hynny.

### Rhoi pwerau i gomisiwn sy'n bodoli eisoes

Os rhoddir y pŵer i adolygu ffiniau'r Senedd i gomisiwn sy'n bodoli eisoes, mae dewis mewn egwyddor rhwng y Comisiwn Ffiniau i Gymru a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. O'r rhain, mae'n debygol y byddai mwy o gyfleoedd i roi pwerau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gan gofio y byddai rhoi pwerau i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn gofyn am gydsyniad Llywodraeth y DU.

Gallai Bil Diwygio'r Senedd roi pwerau i adolygu ffiniau'r senedd i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Yn rhan o hyn, byddai hefyd yn bosibl i'r Bil gymryd camau i ailgyfansoddi ac ailenwi'r Comisiwn, gan adlewyrchu'r ffaith y byddai'n cael swyddogaethau pwysig newydd.

Nodwn y gyfatebiaeth berthnasol sydd gan *Boundaries Scotland*, Comisiwn unigol sy'n adolygu ffiniau Senedd yr Alban a Llywodraeth Leol yr Alban. Roedd Deddf yr Alban 1998, fel y'i diwygiwyd, yn gwneud Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i'r Alban ar y pryd yn gyfrifol hefyd am adolygu etholaethau a rhanbarthau Senedd yr Alban. O ganlyniad, ailenwyd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i'r Alban gan Ran 4 o Ddeddf Etholiadau'r Alban (Diwygio) 2020 er mwyn adlewyrchu ei gyfrifoldebau llawn, a gwnaethpwyd darpariaeth berthnasol. Mae'r Comisiwn Ffiniau i'r Alban sydd ar wahân (ac sy'n cyfateb i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru) yn parhau i gynnal adolygiadau o etholaethau seneddol y DU yn yr Alban.

Byddai rhoi pwerau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn gofyn am lai o gamau paratoadol o gymharu â sefydlu corff newydd gan fod gan y Comisiwn yr ystod lawn o ddogfennau a pholisïau yn eu lle eisoes i weithredu fel corff cyhoeddus annibynnol. Er y gallai fod angen gwneud newidiadau, mae hyn yn debygol o gymryd llai o amser na sefydlu corff o'r newydd. Byddai angen hefyd ystyried aelodaeth bresennol y Comisiwn, o ran a fyddai angen ei hehangu i adlewyrchu ei swyddogaethau newydd ac a fyddai angen adolygu a diweddarau telerau penodi'r aelodau presennol. O ran cyd-destun, mae penodiadau a wnaethpwyd i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn ddiweddar yn golygu bod ganddo bellach gadeirydd newydd a dau Gomisiynydd newydd yn eu lle. Mae'r broses o benodi trydydd Comisiynydd yn parhau i fynd rhagddi.

I grynhoi, mae'n debygol iawn y byddai rhoi pwerau i Gomisiwn sy'n bodoli eisoes yn cymryd llai o amser na sefydlu Comisiwn cwbl newydd, yn enwedig yn sgil yr amser a gymerir i wneud penodiadau cyhoeddus i Gomisiwn newydd. Bydd hyn yn rhan bwysig, ond ymhell o fod yr unig elfen, o'r amser sydd ei angen i weithredu ar y gwaith o ddiwygio'r Senedd.

Buaswn yn hapus i fy swyddogion gysylltu â'ch swyddogion chi i drafod y mater hwn yn fanylach.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink that reads "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

**Mick Antoniw AS/MS**

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad  
Counsel General and Minister for the Constitution